



Cynigion trefniadaeth ysgolion



Canllawiau

Cylchlythyr Llywodraeth Cynulliad Cymru Rhif: 021/2009

Dyddiad cyhoeddi: Medi 2009

Yn disodli Cylchlythyr Rhif: 23/2002

Cynigion trefniadaeth ysgolion

Cynulleidfa	Awdurdodau Lleol; Cyrff Llywodraethu Ysgolion Sefydledig ac Ysgolion Gwirfoddol; Awdurdodau Addysg Esgobaethol; Estyn.
Trosolwg	Mae'r cylchlythyr hwn yn amlinellu'r cyd-destun polisi a'r egwyddorion cyffredinol, y polisiau a'r materion ar gyfer adolygu darpariaeth lleoedd ysgolion, yn amlinellu'r ffactorau i'w hystyried gan y rhai sy'n cyflwyno cynigion ar gyfer ad-drefnu ysgolion ac yn egluro'r meini prawf y bydd Gweinidogion Cymru yn eu defnyddio wrth wneud penderfyniadau ynghylch cynigion.
Camau i'w cymryd	Fel uchod.
Rhagor o wybodaeth	Paul Williams Yr Is-adran Rheolaeth ac Effeithiolrwydd Ysgolion Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau Llywodraeth Cynulliad Cymru Parc Cathays Caerdydd CF10 3NQ Ffôn: (029) 2082 6015 Ffacs: (029) 2082 6109 E-bost: SchoolsManagementDivision3@wales.gsi.gov.uk
Copiau ychwanegol	David Weale, gweler y cyfeiriad uchod. Ffôn: (029) 2082 6017 Ffacs: (029) 2082 6109 E-bost: SchoolsManagementDivision3@wales.gsi.gov.uk
Dogfennau cysylltiedig	Gweler Atodiad A.



ISBN 978 0 7504 5257 1

© Hawlfraint y Goron Medi 2009

CMK-22-07-415

E2350910

Cynnwys

Crynodeb	3
Pwy sy'n gorfod ystyried y canllawiau hyn?	5

Adran 1: Egwyddorion, Polisiau a Materion Allweddol

Egwyddorion Allweddol	6
Polisiau, cynlluniau a materion cefndir allweddol	8
Cynigion i gau ysgolion, gan gynnwys ysgolion bach ac ysgolion gwledig	11
Effaith ar siwrneiau i'r ysgol	12
Yr angen am ddarpariaeth ychwanegol neu lai o ddarpariaeth o fath penodol	12
Cynyddu darpariaeth mewn ysgolion poblogaidd	13
Darpariaeth y blynyddoedd cynnar a'r Cyfnod Sylfaen	14
Lleihau maint dosbarthiadau	14
Llwybrau Dysgu	14
Darpariaeth ôl-16	15
Ad-drefnu'r ddarpariaeth anghenion addysgol arbennig	15
Cyllid cyfalaf	16
Ysgolion sy'n peri pryder	16
Defnydd y gymuned o adeiladau ysgolion	17
Rheoliadau Addysg (Adeiladau Ysgolion) 1999	17
Newid categori ysgol	18
Cydraddoldeb a hawliau dynol	18
Gwahaniaethu ar sail rhyw	19
Deddfwriaeth Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd	19

Adran 2: Ystyriaeth i'r Cynigion gan Weinidogion Cymru

Ffactorau i'w hystyried wrth wneud penderfyniad ar bob cynnig i ad-drefnu ysgolion	20
Ffactorau ychwanegol a ystyrir ar gyfer cynigion i ychwanegu neu ddileu dosbarthiadau meithrin	23

Ffactorau ychwanegol a ystyrir ar gyfer cynigion i ad-drefnu ysgolion uwchradd neu ychwanegu neu ddileu chweched dosbarth	24
Ysgolion sy'n peri pryder	25
Ffactorau ychwanegol i'w hystyried wrth benderfynu ar gynigion ar gyfer darpariaeth ychwanegol o wahanol fathau	26
Ffactorau ychwanegol wrth ystyried cynigion i newid iaith y ddarpariaeth	27
Ystyried cynigion i ad-drefnu'r ddarpariaeth anghenion adysgol arbennig	27
Penderfyniadau gan Weinidogion Cymru	29
Addasu cynigion cyn eu cymeradwyo	29
Llythyrau penderfyniad	30
Atodiad A:	
Dogfennau cysylltiedig	31
Atodiad B:	
Nodiadau ar Asesiadau o Effaith	33

Crynodeb

1.1 Mae Awdurdodau Addysg Lleol (y cyfeirir atynt yn y ddogfen hon fel awdurdodau lleol) yn gyfrifol am gynllunio a darparu lleoedd mewn ysgolion sy'n diwallu anghenion eu hardal. Mae gan awdurdodau lleol (ALLau) bwerau o dan Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (y cyfeirir ati yn y Cylchlythyr hwn fel Deddf 1998), ac mae'n rhaid iddynt eu defnyddio wrth wneud unrhyw newidiadau sylweddol i ysgolion. Mae gan gyrff llywodraethu ysgolion gwirfoddol a sefydledig hefyd bwerau i wneud rhywfaint o newid i'w hysgolion eu hunain. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn annog ALLau i gynllunio darpariaeth ysgolion yn rhesymegol ac yn effeithlon er mwyn sicrhau cynifer o adnoddau addysg â phosibl er budd uniongyrchol dysgwyr. Mae'r Cylchlythyr hwn yn rhoi fframwaith ar gyfer datblygu cynigion, ond yr ALLau perthnasol sy'n gyfrifol am benderfynu ar drefnu darpariaeth leol a maint yr ysgol sydd ei hangen ar bob ardal. Wrth adolygu'u darpariaeth ysgolion, mae angen i awdurdodau sicrhau bod ganddynt y nifer iawn o'r ysgolion o'r math a'r maint cywir yn y lleoliadau iawn er mwyn diwallu anghenion disgyblion a gofynion y cwricwlwm ar bob lefel. Gellir disgwyl i wybodaeth leol a natur amrywiol cymunedau Cymru ddylanwadu'n fawr ar benderfyniadau lleol.

1.2 Dylai'r gwaith o ad-drefnu ysgolion gyfrannu at ddarparu ysgolion sy'n rhoi'r profiadau addysg orau bosibl i'r holl blant a phobl ifanc, ac sy'n gwireddu diffiniad y diben cenedlaethol ar gyfer ysgolion, a nodir yn llawn yn yr adran gyntaf o'r Cylchlythyr hwn.

1.3 Fel rheol, mae angen cyhoeddi cynigion statudol ar gyfer ad-drefnu darpariaeth ysgol. Mae Deddf 1998, Deddf Dysgu a Sgiliau 2000 (y cyfeirir ati yn y ddogfen hon fel Deddf 2000), Rheoliadau Addysg (Cynigion Trefniadaeth Ysgolion) (Cymru) 1999 (fel y'u diwygiwyd), Rheoliadau Addysg (Ysgolion Arbennig a Gynhelir) (Cymru) 1999, Rheoliadau Newid Categori Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2001 (fel y'u diwygiwyd) a Rheoliadau Cynigion Trefniadaeth Ysgolion gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru 2004 (fel y'u diwygiwyd) yn nodi pa newidiadau arfaethedig sydd angen eu cyhoeddi ac yn nodi'r drefn ar gyfer ymgynghori, cyhoeddi, cyflwyno gwrthwynebiad a phenderfynu ar gynigion o'r fath.

1.4 Daw cynigion statudol i ad-drefnu darpariaeth ysgol ger bron Gweinidogion Cymru ar gyfer penderfyniad lle bo gwrthwynebiadau i'r cyfryw gynigion neu lle bo Gweinidogion Cymru yn galw'r cynigion i mewn o dan baragraff 8(1)(a) o Atodlen 6 i Ddeddf 1998. Mae angen i rai mathau o gynigion gael eu cymeradwyo yn awtomatig gan Weinidogion Cymru, ni waeth a gafwyd gwrthwynebiad neu beidio. Ym mhob achos, Gweinidogion Cymru sy'n gwneud y penderfyniad, ar sail cyngor gan swyddogion. Bernir pob achos yn ôl ei deilyngdod, gan gymryd i ystyriaeth y ffactorau a amlinellir yn ail ran y Cylchlythyr hwn.

1.5 Mae'r Cylchlythyr yn nodi'r cyd-destun polisi a'r egwyddorion cyffredinol ar gyfer adolygu darpariaeth lleoedd mewn ysgolion, gan gynnwys darpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol arbennig (AAA). Mae hefyd yn nodi'r ffactorau y mae angen i'r sawl sy'n cyflwyno cynigion i ad-drefnu ysgolion eu hystyried ac yn egluro'r meini prawf y bydd Gweinidogion Cymru yn eu cymhwyso wrth ddod i benderfyniad ar gynigion a ddaw i'w sylw. Mae'r canllawiau'n gymwys i ysgolion bro, ysgolion gwirfoddol, ysgolion sefydledig ac ysgolion arbennig.

1.6 Mae'r canllawiau yn y Cylchlythyr hwn yn disodli cynnwys Cylchlythyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru 23/02 "Cynigion Trefniadaeth Ysgol" (Gorffennaf 2002) a byddant yn cael eu defnyddio yn achos unrhyw gynnig i ad-drefnu ysgol a gyhoeddir ar ôl 1 Ionawr 2010. Mae Gweinidogion Cymru hefyd yn gyfrifol am gyhoeddi canllawiau ar y gweithdrefnau ar gyfer cyhoeddi, penderfynu ar gynigion statudol ar gyfer newidiadau i ysgolion, a'u gweithredu gan gynnwys newidiadau i ddarpariaeth ôl-16. Mae'r canllawiau trefniadol wedi'u hamlinellu yng Nghylchlythyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru 9/99 "Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998: Trefniadaeth Lleoedd Ysgolion" a Chylchlythyr 48/2004: Canllawiau sy'n ategu'r cynigion trefniadaeth ysgolion gan Reoliadau 2004 y Cyngor Cenedlaethol dros Addysg a Hyfforddiant. Caiff y dogfennau cyfarwyddyd trefniadol hyn eu disodli yn eu tro.

Pwy sy'n gorfod ystyried y canllawiau hyn?

1.7 Mae'r Cylchlythyr hwn yn ganllaw i ALLau; cyrff llywodraethu ysgolion sefydledig, ysgolion gwirfoddol a gynorthwyr ac ysgolion gwirfoddol a reolir; ac awdurdodau addysg esgobaethol, sydd oll â chyfrifoldebau statudol dros gyhoeddi cynigion. Bydd Gweinidogion Cymru yn rhoi ystyriaeth i'r Cylchlythyr hwn wrth bennu cynigion sy'n denu gwrthwynebiad statudol; wrth gyfarwyddo Awdurdodau Lleol neu gyrff llywodraethu i gyhoeddi cynigion; neu wrth gyhoeddi eu cynigion eu hunain. Mae'r canllaw hefyd o ddiddordeb i'r rhai yr ymgynghorir â hwy ynglŷn â chynigion, gan gynnwys ysgolion, rhieni a chymunedau lleol.

1.8 Yn yr adran gyntaf amlinellir ystyriaethau allweddol a chefnidir i feysydd polisi sydd â goblygiadau o ran datblygu cynigion statudol. Mae angen i'r rhai sy'n datblygu cynigion ar gyfer ymgynghori gymryd y rhain i ystyriaeth, er na fydd pob ystyriaeth yn berthnasol ym mhob achos. Mae'r ail adran yn amlinellu'r ffactorau i Weinidogion Cymru eu cymryd i ystyriaeth wrth benderfynu ar gynigion.

1.9 Mae Atodiad A yn cynnwys rhestr o'r dogfennau perthnasol a pholisïau Llywodraeth Cynulliad Cymru a fydd yn fan cyfeirio ar gyfer amryw gynigion. Mae Atodiad B yn cynnwys nodiadau esboniadol ynghylch asesu effeithiau o safbwynt y gymuned a'r Gymraeg.

Adran 1: Egwyddorion, Polisiâu a Materion Allweddol

Egwyddorion Allweddol

1.10 Diben ysgolion Cymru yw:

- galluogi pob plentyn a pherson ifanc i ddatblygu’u potensial llawn drwy feithrin sgiliau, gwybodaeth, dealltwriaeth ac agweddau, gan gynnwys sgiliau personol, cymdeithasol ac emosiynol i’w galluogi i fod yn ddinasyddion sy’n weithgar yn economaidd, yn gymdeithasol ac yn bersonol ac yn ddysgwyr gydol oes;
- hybu diwylliant sy’n parchu cynhwysiant cymdeithasol ac amrywiaeth, yn enwedig drwy ddatblygu lles dysgwyr a phersonoli’u haddysg;
- sefydlu cymunedau dysgu proffesiynol cadarn mewn ysgolion lle gall ymarferwyr feithrin a rhannu eu gwybodaeth broffesiynol am ddysgu ac addysgu;
- cynnig cwricwlwm i blant a phobl ifanc sy’n eu cynnwys nhw ac yn eu hysgogi i ddysgu a chyrraedd eu potensial llawn;
- darparu cymuned ddysgu ar gyfer pawb sy’n ymwneud â bywyd ysgolion sy’n canolbwyntio ar blant, pobl ifanc a’u teuluoedd, ac sy’n cynnwys llywodraethwyr, athrawon, a staff eraill ysgolion ac oedolion sy’n hyfforddi i weithio mewn ysgolion;
- chwarae rhan allweddol ar y cyd ag ysgolion a darparwyr gwasanaethau partner eraill o ran cynllunio a darparu gwasanaethau integredig i wella lles plant a phobl ifanc; a
- cynnig neu hwyluso addysg er mwyn i ysgolion gyfrannu at ddiwallu anghenion cymunedau a chynnwys y gymuned fel partner er mwyn sicrhau bod pob ysgol yn canolbwyntio ar y gymuned.

1.11 O gadw’r uchod mewn cof, yr ystyriaethau allweddol y dylai Awdurdodau Lleol a hyrwyddwyr eraill eu cymryd i ystyriaeth wrth ddatblygu cynigion i newid patrwm darpariaeth ysgol fydd:

- i. yr effaith ar safon yr addysg i’w darparu yn yr ardal, gan gynnwys darpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol arbennig ac/neu anabledau;
- ii. yr effaith ar fynediad at ysgolion, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, ac ar yr amser y mae’n ei gymryd i deithio i’r ysgol;

- iii. i ba raddau y bydd y cynigion yn gwella effeithlonrwydd a sut mae sicrhau cysondeb rhwng nifer a lleoliad lleoedd mewn ysgolion a'r galw amdanynt, gan gynnwys y galw ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg neu ysgolion â nodwedd grefyddol ddynodedig;
- iv. pa mor gost-effeithiol yw cynigion o ran costau cyfalaf a chylchol, ac a fyddai adnoddau ariannol digonol ar gael i'w rhoi ar waith;
- v. barn y rhai yr effeithir arnynt yn fwyaf uniongyrchol, gan gynnwys plant, pobl ifanc, rhieni, ac ysgolion neu ddarparwyr eraill yn yr ardal; a
- vi. a yw'r cynigion yn cefnogi rhaglen yr ALLau i gyflenwi rhaglen buddsoddi cyfalaf Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif a hyrwyddo dylunio ysgolion mewn ffordd gynaliadwy.

1.12 Bydd angen i ALLau a hyrwyddwyr eraill ystyried hefyd:

- i. sut y gallai'r cynnig effeithio ar deuluoedd lleol a'r gymuned leol, drwy gynnal asesiad o'r effaith ar y gymuned;
- ii. yr effaith ar y Gymraeg, drwy lunio asesiad o'r effaith ar iaith os yw'r cynnig yn effeithio ar ysgol Gymraeg neu ddwyieithog;¹
- iii. a yw'r cynnig yn cyfrannu at "Dyfodol Teg i'n Plant", sef strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer mynd i'r afael â thlodi ymhlith plant, ac unrhyw strategaeth rall a fydd yn cymryd ei lle, fel unrhyw effaith y gallai'r cynnig ei chael ar wella cyraeddiadau addysgol plant sydd o gefndiroedd o amddifadedd economaidd;
- iv. i ba raddau y byddai'r cynnig yn cyfrannu at bolisiâu penodol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer gwella canlyniadau dysgu ar gyfer plant a phobl ifanc ym mhob cyfnod; a
- v. yr angen i gydymffurfio â deddfwriaeth cydraddoldeb.

Ar bob adeg, effaith y cynnig ar safonau addysg fydd y brif ystyriaeth.

¹ Fel y'i diffinnir yn y daflen wybodaeth 023/2007 - Categoriâu WM, DS, TR, EW ar gyfer ysgolion cynradd a WM, AB, BB, CB, CH, EW ar gyfer ysgolion uwchradd.

Polisïau, Cynlluniau a Materion Cefndir Allweddol

1.13 Mae paragraffau 1.14-1.19 isod yn nodi'r polisïau, y cynlluniau a'r materion cefndir allweddol sy'n effeithio ar drefniadaeth ysgolion.

Nodau Craidd ar gyfer Plant a Phobl Ifanc a'r Cynllun Plant a Phobl Ifanc

1.14 Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn anelu at sicrhau bod plant a phobl ifanc:

- yn cael dechrau teg mewn bywyd a'r sylfaen orau bosibl ar gyfer eu twf a'u datblygiad i'r dyfodol
- yn cael mynediad at ystod o gyfleoedd cynhwysfawr o ran addysg, hyfforddiant a dysgu, gan gynnwys ennill sgiliau personol a chymdeithasol hanfodol
- mor iach â phosibl yn gorfforol a meddyliol, cymdeithasol ac emosiynol, gan gynnwys bod yn rhydd rhag camdriniaeth, dioddef a chamfanteisio
- yn cael mynediad at weithgareddau chwarae, hamdden, chwaraeon a diwylliannol
- yn cael dweud eu dweud, yn cael eu trin â pharch, a chydabyddiaeth i'w hunaniaeth o ran hil a diwylliant
- â chartref a chymuned ddiogel sy'n cefnogi eu lles corfforol ac emosiynol
- heb fod wedi'u hanfanteisio gan dlodi plant.

1.15 Yn unol â Rheoliadau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2007, rhaid i bob Awdurdod Lleol baratoi Cynllun 3 blynedd Plant a Phobl Ifanc², a oedd yn gorfod cael ei gymeradwyo am y tro cyntaf erbyn 31 Gorffennaf 2008 a'i gyhoeddi erbyn 30 Medi 2008. Mae'n rhaid i'r Cynllun Plant a Phobl Ifanc gwmpasu amrediad o weithredoedd mewn perthynas â chyfleoedd addysg a dysgu o dan Nod Craidd 2. Mae'r rhain yn cynnwys camau i gyfateb y cyflenwad o leoedd ysgol i nifer y disgyblion yn lleol, gan gymryd dewisiadau rhieni ac anghenion disgyblion i ystyriaeth, gan gynnwys y flaenoriaeth a roddir i addysg cyfrwng Cymraeg ac asesiad a darpariaeth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol plant a phobl ifanc. Wrth baratoi a monitro'r cynllun, bydd angen i ALLau gadw gwybodaeth gyfredol

² Cynllunio ar y Cyd i Wella Canlyniadau: Canllawiau Cynllunio a Rheoliadau i Awdurdodau Lleol a'u Partneriaid ar Gynlluniau Plant a Phobl Ifanc: Cylchlythyr Llywodraeth Cynulliad Cymru Rhif 31/2007.

am leoedd mewn ysgolion a'r nifer sy'n eu derbyn, gan gynnwys y cyflenwad a'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg, a chanlyniadau arolygon a gynhaliwyd er mwyn pennu'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg i'r dyfodol.

Safonau Addysg

1.16 Mae'n rhaid ystyried cynigion am newidiadau yn nhrefniadaeth ysgolion yng nghyd-destun ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru i godi safonau addysgu a chyrhaeddiad ym mhob ysgol, a gwella effeithiolrwydd ysgolion. Dylai'r ALLau ac eraill sy'n cyflwyno cynigion roi'r ystyriaeth flaenaf i effaith y newid arfaethedig ar safon yr addysg sydd i'w darparu yn yr ardal. Dylent ystyried themâu perthnasol Y Wlad sy'n Dysgu: Gweledigaeth ar Waith a Cymru'n Un³. Yn benodol, dylai buddiannau dysgwyr ddod yn gyntaf, ac mae'n rhaid lleihau'r anghydraddoldeb cyrhaeddiad rhwng ardaloedd, grwpiau ac unigolion breintiedig a difreintiedig, er budd pawb.

Cynllunio ar gyfer disgyblion y dyfodol

1.17 Dylid paratoi cynigion ar sail rhagolygon cadarn, gan gymryd y canlynol i ystyriaeth:

- Y gostyngiad yn nifer y disgyblion yn y system ysgol yn gyffredinol, y disgwylir iddo barhau tan o leiaf 2016.
- Amcanestyniadau poblogaeth a rhagolygon ar gyfer mewnfudo ac ymfudo.
- Cyfraddau genedigaethau yn ardal yr Awdurdod Lleol, sydd wedi cynyddu mewn rhai achosion.
- Newidiadau yn y galw am fath penodol o ddarpariaeth, ee ysgolion cyfrwng Cymraeg ac ysgolion â nodwedd grefyddol ddynodedig, neu ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol arbennig penodol.
- Cynlluniau lleol ar gyfer datblygiad economaidd neu dai.
- Ar gyfer cynigion ôl-16, demograffeg a chyfraddau cyfranogi myfyrwyr, data economaidd ac ar y farchnad lafur a gwybodaeth am brinder sgiliau yn lleol ac yn genedlaethol.

³ Cymru'n Un: Rhaglen Flaengar ar gyfer Llywodraethu Cymru.

Cynllun Rheoli Asedau Gwasanaeth Addysg

1.18 Mae yna ddisgwyliad clir y dylai pob Awdurdod Lleol baratoi Cynlluniau Rheoli Asedau⁴, gan gynnwys Cynlluniau Rheoli Asedau Gwasanaeth Addysg. Dylai Cynlluniau Rheoli Asedau ddarparu dealltwriaeth dryloyw o eiddo ysgol sydd wedi'i gadw neu'i gynnal gan Awdurdod Lleol fel y gellir mynd i'r afael â materion gwerth am arian, gwneud penderfyniadau atebol a darparu gwelliannau i wasanaethau. Bu Y Wlad sy'n Dysgu: Gwledigaeth ar Waith⁵ yn rhag-weld y byddai ALLau yn datblygu cynlluniau ar gyfer buddsoddiad cyfalaf mewn ysgolion, sy'n cymryd y gostyngiad llym yn niferoedd disgyblion i ystyriaeth, ac sy'n darparu ysgolion cynaliadwy sy'n canolbwyntio ar y gymuned ac sy'n bodloni safonau ysgolion yr 21ain ganrif⁶. Yn unol â chyd-ymrwymiad yr ALLau a Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddarparu "ysgolion ar gyfer yr 21ain ganrif", bydd penderfyniadau ar ddyrannu cyllid ar gyfer buddsoddiad cyfalaf yn y dyfodol yn ei gwneud yn fwyfwy angenrheidiol i Awdurdodau Lleol gynllunio'n strategol, ar sail eu cynlluniau rheoli asedau a'u hasesiad o'r galw am leoedd mewn ysgolion. Yn gyffredinol dylai ALLau geisio ailgylchu asedau o unrhyw adeiladau a safleoedd ysgol sydd dros ben er mwyn gwella eu hadeiladau ysgol, yn hytrach na'u defnyddio ar gyfer prosiectau y tu allan i'r portffolio addysg, er mai awdurdodau lleol fydd yn gyfrifol am wneud penderfyniadau terfynol o'r fath.

Lleoedd dros ben

1.19 Mae'n bwysig bod arian ar gyfer addysg yn cael ei ddefnyddio'n gost-effeithiol. Dylid gwneud y defnydd gorau o adnoddau sy'n canolbwyntio ar wella safonau. Mae rhai lleoedd dros ben yn angenrheidiol i alluogi ysgolion i ymdopi ag amrywiadau yn niferoedd disgyblion, ond mae gormod o leoedd dros ben, a thrwy hynny, nifer ormodol o ysgolion, yn golygu na wneir defnydd cynhyrchiol o adnoddau. Pan fo gormod o leoedd dros ben mewn ardal, dylai Awdurdodau Lleol

⁴ Canllaw i Gynllunio Rheoli Asedau yng Nghymru, a gyhoeddwyd gan Consortiwm Awdurdodau Lleol Cymru.

⁵ Y Wlad sy'n Dysgu Gwledigaeth ar Waith 2006.

⁶ Mae safon glir i Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif yn cael ei datblygu ar hyn o bryd fel y rhan gyntaf o'r rhaglen buddsoddi cyfalaf newydd mewn partneriaeth â CLILC ac ALLau.

adolygu eu darpariaeth, a lle bo'n ymarferol, gyflwyno cynigion ar gyfer ad-drefnu ysgolion, yn enwedig os oes gan ysgolion lefelau "sylweddol" o leoedd dros ben⁷, os oes angen buddsoddi sylweddol, neu os yw'r ysgol mewn dalgylch sy'n annhebygol o gyflenwi digon o ddisgyblion i'w gwneud yn gynaliadwy i'r dyfodol. Dylai Awdurdodau Lleol sicrhau bod ysgolion sydd i'w cadw â niferoedd priodol ac yn cael eu lleoli er mwyn ymgysylltu gymaint â phosibl â'r gymuned. Dylai Awdurdodau Lleol anelu at gadw dim mwy na 10% o leoedd dros ben yn gyffredinol, er y gall lefelau mewn ysgolion unigol fod yn uwch na hyn, mewn ardaloedd mwy gwledig yn benodol. Yn gyffredinol, dylai ALLau geisio ailddyranu referniw sy'n cael ei arbed drwy gael gwared â lleoedd dros ben yn y portffolio addysg.

Cynigion i gau ysgolion, gan gynnwys ysgolion bach ac ysgolion gwledig

1.20 Nid oes unrhyw ragdybiaeth o blaid neu yn erbyn cau unrhyw fath o ysgol, gan gynnwys ysgolion gwledig. Mewn ardaloedd mwy gwledig, bydd Awdurdodau Lleol, yn ddi-os, yn nodi'r angen i gadw rhai ysgolion penodol mewn lleoliadau allweddol. Rhaid i unrhyw achos dros gau fod yn gadarn ac er lles pennaf darpariaeth addysg yn yr ardal. Dylid cynnal asesiad er mwyn darganfod a yw'r achos dros gau yn gorbwyso ystyriaethau eraill. Er mai safonau addysg fydd y brif ystyriaeth, dylai Awdurdodau Lleol sy'n nodi'r angen i gau ysgolion ystyried ffyrdd o leihau'r effeithiau andwyol cyn cyflwyno cynigion.

Wrth ystyried a yw'n briodol cau'r ysgol, dylid rhoi ystyriaeth i'r egwyddorion allweddol a nodir ym mharagraff 1.11, 1.12 a'r materion ychwanegol canlynol:

- a ellir gwneud arbedion, neu a ellir darparu gwasanaethau i'r gymuned mewn modd cost-effeithiol trwy ddefnyddio rhannau o'r safleoedd at ddibenion eraill
- unrhyw fuddsoddiad cyfalaf y byddai ei angen i wneud yr adeiladau o safon addas i gyflwyno'r cwricwlwm
- a fyddai opsiynau eraill yn fwy priodol, er enghraifft sefydlu ysgol â mwy nag un safle neu hyrwyddo ffederasiwn o gyrff llywodraethu ysgolion yn yr ardal leol⁸

⁷ Diffinnir 'sylweddol' fel 25% neu fwy o gynhwysedd ysgol ac o leiaf 30 o leoedd heb eu llenwi: er enghraifft gall ysgol fach gyda chynhwysedd o 100 o leoedd fod â 28 o leoedd heb eu llenwi ond ni fyddai hynny'n cael ei ystyried yn nifer 'sylweddol' o leoedd dros ben.

⁸ Mae'r hyn o'r pwys mwyaf mewn ardaloedd gwledig.

- a yw'r ysgol yn darparu addysg o safon dda o gymharu ag eraill, yn unol â thystiolaeth adroddiadau Estyn a dulliau eraill o fesur perfformiad.

Effaith ar siwrneiau i'r ysgol

1.21 Ni ddylai cynigion ymestyn amser siwrnai disgyblion yn ormodol a dylent adlewyrchu amcanion Llywodraeth Cynulliad Cymru i leihau tagfeydd, allyriadau carbon, a hybu dulliau eraill o deithio heblaw'r car. Mae lles plant yn ystyriaeth bwysig os yw siwrnai un ffordd yn fwy na 45 munud i ddisgyblion cynradd neu dros awr i ddisgyblion uwchradd. Dylid rhoi ystyriaeth ychwanegol i les disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig. Rhaid ystyried hefyd y gost reolaidd i'r Awdurdod Lleol o gludo disgyblion i ysgolion sydd ymhellach i ffwrdd o'u cartref.

1.22 Dylai'r sawl sy'n cyflwyno cynigion hefyd roi ystyriaeth benodol i effaith unrhyw anawsterau teithio ar ymgysylltiad disgyblion a'u presenoldeb yn yr ysgol. Dylai cynigwyr asesu llwybrau cerdded neu lwybrau beicio tebygol, o ran diogelwch a hygyrchedd cyn cyflwyno cynigion.

Yr angen am ddarpariaeth ychwanegol, neu lai o ddarpariaeth o fath penodol

1.23 Yn achos ysgolion newydd cyfrwng Cymraeg, ysgolion â nodwedd grefyddol, ysgolion un rhyw neu wrth ehangu'r ddarpariaeth mewn ysgolion o'r fath, rhaid asesu'r galw am ddarpariaeth ychwanegol o'r fath yn yr ardal a darparu tystiolaeth ar ei gyfer. Gallai gordanysgrifio a niferoedd sylweddol o apeliadau awgrymu nad yw anghenion y rhieni yn cael eu bodloni, ond gallai hefyd awgrymu diffyg trylwyrredd trefniadau derbyn. Mae'n ofynnol i Awdurdodau Lleol fodloni dewisiadau rhieni o ran darpariaeth oedran ysgol gorfodol ar yr amod fod hynny'n gydnaws â darpariaeth addysg gost-effeithiol.

1.24 Dylai Awdurdod Lleol ystyried ei Gynllun Addysg Gymraeg a strategaethau a chynlluniau iaith perthnasol Cymru gyfan wrth ddatblygu cynigion i gau, agor neu newid ysgolion cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog yn ei ardal, a dylai, i'r graddau y bo

hynny'n ymarferol, anelu at ateb galw'r rhieni am ddysgu cyfrwng Cymraeg neu Saesneg. Dylai mesur y galw am addysg cyfrwng Cymraeg fod yn rhan o ddisgyblaeth gynllunio ysgolion, yn enwedig yn yr ALLau hynny lle mae llai nag 20% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg. Dylai cynigion fod yn seiliedig ar fesur y galw ar sail arolygon lleol neu ffynonellau lleol eraill. Lle nad yw'n ymarferol i un Awdurdod Lleol gynnal ysgol uwchradd dylai Awdurdodau Lleol gydweithredu er mwyn sicrhau dilyniant i ddisgyblion rhwng y cyfnod cynradd a'r cyfnod uwchradd. Mae hyn yn arbennig o bwysig ar gyfer ALLau sy'n nodi'r angen i ehangu darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y cyfnod cynradd. Os ystyrir ad-drefnu'r lleoedd ar gael ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg, rhaid i Awdurdodau Lleol sicrhau bod lleoedd cyfrwng Cymraeg eraill ar gael i ddisgyblion o fewn pellter teithio rhesymol ac y gall yr ysgol arall gynnig o leiaf yr un safonau a chyfleoedd i gamu ymlaen yn yr iaith Gymraeg.

1.25 Wrth benderfynu ar gynigion i gau ysgolion â nodwedd grefyddol ddynodedig, bydd angen i'r rhai sy'n cyflwyno'r cynigion ystyried yr effaith ar gydbwysedd y ddarpariaeth mewn ysgolion â'r nodwedd honno ac ysgolion heb y nodwedd honno. Mewn rhai ardaloedd mae'n bosibl na fydd yn gydnaws â darpariaeth gost-effeithiol i gynnal ysgolion â nodwedd grefyddol ac ysgolion heb nodwedd grefyddol, ond rhaid ymdrin mewn modd sensitif â chynigion i newid cydbwysedd y ddarpariaeth, a dylai'r cynigion adlewyrchu cydbwysedd y galw os oes modd.

Cynyddu darpariaeth mewn ysgolion poblogaidd

1.26 Yn arferol, ar adeg pan fo niferoedd disgyblion wedi'u cofrestru yn y rhan fwyaf o ardaloedd yn parhau i ostwng, ni ddylai fod angen darparu lleoedd ychwanegol mewn ysgolion os oes ysgolion eraill o'r un math o fewn pellter rhesymol. Dim ond os yw'r newid yn amlwg er lles pennaf plant lleol y dylid cyflwyno cynnig am newid arfaethedig a fyddai'n cynyddu'n sylweddol y nifer o leoedd mewn ysgol benodol. Os yw'r cydbwysedd galw yn symud rhwng ysgolion o'r un math, dylai Awdurdodau Lleol ystyried yn y lle cyntaf a yw trefniadau derbyn yn cael eu cymhwyso'n gyson ac a fyddai'n fwy priodol i newid y trefniadau, gan gynnwys y dalgylchoedd, yn hytrach nag ychwanegu darpariaeth.

Addysg y Blynyddoedd Cynnar a'r Cyfnod Sylfaen

1.27 Dylai cynigion sy'n effeithio ar y ddarpariaeth blynyddoedd cynnar ystyried pa mor ddymunol fyddai integreiddio addysg blynyddoedd cynnar a gwasanaethau gofal plant, a bod yn gyson â dull integredig. Dylai'r cynigion gymryd cyflwyniad y Cyfnod Sylfaen i ystyriaeth a'r dull o ddarparu cwricwlwm cyfannol ar gyfer y blynyddoedd cynnar, yn seiliedig ar ddysgu gweithredol. Wrth ystyried cau ysgol feithrin neu ddsbarth meithrin, dylai awdurdodau edrych tuag at gynnal neu wella safon y ddarpariaeth. Dylent hefyd geisio cyfleoedd i gynnal neu gynyddu hygyrchedd, cynhwysedd a chynaliadwyedd addysg cyfrwng Cymraeg. Dylai'r cynigion ystyried y nod a osodir yn Iaith Pawb i gynyddu niferoedd plant dan bump oed sy'n dod i gysylltiad digonol â'r Gymraeg i'w galluogi i wneud dewisiadau hyderus i barhau i ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.

Lleihau maint dosbarthiadau

1.28 Yn gyfreithiol, rhaid i ddsbarthiadau babanod gynnwys 30 disgybl neu lai (ac eithrio mewn amgylchiadau arbennig a nodir yn y Rheoliadau)⁹. Yn ogystal, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi darparu cyllid i Awdurdodau Lleol allu lleihau maint dosbarthiadau iau i 30 neu lai. Dylai Awdurdodau Lleol sicrhau na ddylai unrhyw gynnig dan ystyriaeth gael effaith niweidiol ar ei berfformiad o ran cydymffurfio â deddfwriaeth a pholisi ar faint dosbarthiadau.

Llwybrau Dysgu

1.29 Mae'r rhaglen Llwybrau Dysgu, drwy Fesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009, yn anelu at ddarparu cyfleoedd newydd i ddisgyblion 14-19 oed, gan gynnig gwell dewis a hyblygrwydd, gan gynnwys cynigion galwedigaethol ac achredu hyfforddiant lle bynnag y bo modd, ac ystod ehangach o ddewisiadau trwy gyfrwng y Gymraeg. Dylai Awdurdodau Lleol sy'n ystyried ad-drefnu darpariaeth uwchradd asesu cyfraniad posibl cynigion i Fesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009.

⁹ Deddf 1998, Adran 1 a Rheoliadau Addysg (Maint Dosbarthiadau Babanod) (Cymru) 1998 fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau Addysg (Maint Dosbarthiadau Babanod) (Cymru) (Diwygio) 2009.

Darpariaeth ôl-16

1.30 Mae cydweithio rhwng darparwyr, a chynllunio ar y cyd yn hanfodol ar gyfer cyflwyno addysg ôl-16 yn y modd mwyaf effeithiol a chost-effeithiol, gan gynnig ystod ddigonol o gyfleoedd astudio. Bydd angen i'r rhai sy'n hyrwyddo newidiadau i ddarpariaeth ôl-16 baratoi cynigion yn sgil y polisi Gweddnewid, Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 ac unrhyw bolisiau sy'n cymryd eu lle. Mae Mesur Dysgu a Sgiliau 2009 yn ei gwneud yn ofynnol i'r rheini sy'n llunio cwricwla lleol hyrwyddo cyrsiau Cymraeg ôl-14 a mynediad atynt. Dylai Awdurdodau Lleol ystyried a fyddai mwy o gydweithio rhwng darparwyr cyfrwng Cymraeg ar draws ffiniau siroedd yn hybu cyfleoedd dysgu ar gyfer y grŵp oedran 14-19.

1.31 Er nad oes gan Awdurdodau Lleol bwerau o dan Ddeddf 1998 i gyflwyno cynigion ar gyfer ad-drefnu chweched dosbarth yng nghyswllt ysgolion gwirfoddol a gynorthwyr ac ysgolion sefydledig, mae Gweinidogion Cymru wedi nodi eu bwriad i ddirprwyo eu pwerau eu hunain (gan ddibynnu ar yr achos unigol) sy'n deillio o Ddeddf 2000 i newid darpariaeth ôl-16 mewn ysgolion gwirfoddol a gynorthwyr ac ysgolion sefydledig, i'r Awdurdodau Lleol os cyfyd yr angen.

Ad-drefnu'r ddarpariaeth Anghenion Addysgol Arbennig

1.32 Mae'n debygol bod gan bob ysgol yng Nghymru blant ag AAA. Felly, bydd gan bob cynnig ad-drefnu ysgol oblygiadau ar gyfer y ddarpariaeth AAA, boed o ran mynediad at y cwricwlwm neu fynediad corfforol i adeiladau ysgol. Mae ad-drefnu ysgolion yn rhoi cyfle i gynigwyr ystyried y ffyrdd mwyaf effeithiol o sicrhau bod cefnogaeth AAA briodol ar gael i'r disgyblion. Gallai hyn fod mewn ysgolion prif ffrwd, mewn unedau adnoddau arbennig sy'n gysylltiedig ag ysgolion prif ffrwd, neu, os yw'n briodol, mewn ysgolion arbennig. Dylid rhoi ystyriaeth i sut mae newidiadau mewn ysgolion yn debygol o effeithio ar yr holl wasanaethau eraill a ddarperir gan yr awdurdod ar gyfer disgyblion ag anabledau a/neu AAA. Ni ddylai unrhyw newid gael effaith er gwaeth ar safon y gwasanaethau hyn.

Cyllid Cyfalaf

1.33 Cyn cyhoeddi cynigion statudol, bydd angen i gynigwyr wneud asesiad o'r goblygiadau ariannol, yn enwedig o ran sicrhau y gellir bodloni unrhyw gostau cyfalaf sy'n gysylltiedig â gweithredu'r cynigion. Dylai cynigwyr allu darparu cadarnhad ysgrifenedig gan y corff neu'r cyrff dan sylw y bydd unrhyw gyllid cyfalaf y mae'r cynigwyr yn dibynnu arno ar gael ar y lefel ofynnol ac ar yr amser cywir. Yn achos Awdurdod Lleol, gall hyn fod yn gadarnhad gan yr awdurdod ei hun trwy gyfeiriad at ei raglen gyfalaf. Yn achos ysgolion gwirfoddol a gynorthwyr, gellir cefnogi gwariant llywodraethwyr gyda hyd at 85% o gymorth grant oddi wrth y Rhaglen Gyfalaf Adeiladu Ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyr (VA) a weinyddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Pan fo angen cymorth grant o'r fath mae angen cadarnhad bod y cynllun wedi'i dderbyn dan raglen VA Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mewn achosion lle mae darpariaeth chweched dosbarth ysgolion yn cael ei throsglwyddo i sefydliad addysgol arall, ynghyd â dysgwyr o sectorau eraill, mae buddsoddiad cyfalaf yn debygol o ddod o nifer o ffynonellau. Yn yr achosion hynny byddai angen cadarnhad ysgrifenedig gan bob un o'r ffynonellau cyllid y mae'r hyrwyddwyr yn dibynnu arnynt.

Ysgolion sy'n peri pryder

1.34 Dylai Awdurdodau Lleol roi ystyriaeth gynnar i hyfywedd hirdymor yr ysgolion y mae Estyn o'r farn bod angen mesurau arbennig neu welliannau sylweddol arnynt. Dylent ystyried cau ysgolion o'r fath pan fo lleoedd ar gael mewn ysgolion cyfagos, sy'n perfformio'n well.

1.35 Ni ddylid ystyried agor ysgol newydd ar safle'r hen ysgol ond os oes angen am leoedd ac os nad oes dewis arall addas ar gael.

1.36 Mae Adran 19 o Ddeddf 1998 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru roi cyfarwyddyd i Awdurdod Lleol gau ysgol sydd dan fesurau arbennig. Fel arfer, lle caewyd ysgolion dan fesurau arbennig, gwnaed y cynigion gan yr Awdurdod Lleol.

Defnydd y gymuned o adeiladau ysgol

1.37 Darparu addysg yw prif nod ysgolion. Mewn rhai ardaloedd, gall yr ysgol fod yn ganolbwynt i weithgarwch cymunedol hefyd, a gallai goblygiadau ei chau fod yn fwy na mater o ddarparu addysg. Gall hyn fod yn nodwedd arbennig mewn ardaloedd gwledig os defnyddir adeiladau ysgol ar gyfer darparu gwasanaethau i'r gymuned leol. Dylai Awdurdodau Lleol ystyried a fyddai'n ddichonadwy ac yn ymarferol yn economaidd i gydleoli gwasanaethau lleol o fewn yr ysgol i wrthbwysu costau cynnal yr ysgol. Dylai'r achos y mae cyflwynwyr cynigion yn ei baratoi ddangos bod asesiad wedi'i gynnal ar effaith cau ysgol ar y gymuned, a sut y gallai'r cyfleusterau cymunedol a ddarperir gan yr ysgol ar hyn o bryd gael eu cynnal. Os oes cynnig i gau ysgol, dylai Awdurdodau Lleol ystyried pa gamau y mae angen eu cymryd i gynnal neu wella ymgysylltu â'r broses addysg ac â chyfleusterau eraill a gynigir gan ysgolion fel gweithgareddau cyn ac ar ôl ysgol a allai helpu i fynd i'r afael â thlodi plant. Dylid ystyried safbwyntiau'r cyngor cymuned (os oes un), y bartneriaeth leol Cymunedau yn Gyntaf (mewn ardaloedd perthnasol), grwpiau gwirfoddol lleol ac eraill â diddordeb yn y gymuned leol, er mai budd addysgol disgyblion yn yr ardal ddylai fod bwysicaf.

Rholiadau Addysg (Adeiladau Ysgolion) 1999

1.38 Mae Rheoliadau Addysg (Adeiladau Ysgolion) 1999 yn nodi'r safonau ar gyfer adeiladau ysgolion, gan gynnwys arwynebedd lleiaf y caeau chwaraeon tîm sy'n gorfod bod ar gael i ysgol. Dylai cynigion statudol sicrhau y cyrhaeddir y safonau hyn. Er hyn, mae adran 543 o Ddeddf Addysg 1996 (fel y'i diwygiwyd gan baragraff 159 o Atodlen 30 i Ddeddf 1998) yn rhoi'r grym i Lywodraeth Cynulliad Cymru, o dan rai amgylchiadau, i lacio'r safonau a osodwyd. Mae Cylchlythyr 15/99¹⁰ y Swyddfa Gymreig yn rhoi canllawiau pellach ar hyn. Yn ogystal, bydd angen i Awdurdodau Lleol gyfeirio at Reoliadau Adeiladu a Bwletinau Adeiladu cysylltiedig.

¹⁰ Rheoliadau Adeiladau Ysgolion: Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 15/99.

Newid categori ysgol

1.39 Mae pob categori ysgol - cymunedol, sefydledig, gwirfoddol a gynorthwyir neu wirfoddol a reolir - yn rhannu'r un statws. Bydd pob cynnig i newid categori ysgol yn cael ei ystyried yn ôl ei deilyngdod unigol. Nid oes unrhyw ragdybiaeth o blaid neu yn erbyn unrhyw gategori penodol. Er y gall ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir dderbyn grantiau ar gyfer gwaith cyfalaf, mae'r cyllid sydd ar gael at y diben hwn yn gyfyngedig ac ni ellir rhagdybio y byddai ysgolion o'r fath yn gallu gwella eu hadeiladau yn gynt nag ysgolion mewn categori arall. Mae angen i hyrwyddwyr sy'n ystyried newid y categori hwn gofio'r cyfyngiadau o ran cyllid ond nid yw hyn yn golygu o reidrwydd na ddylid cynnig awgrymiadau.

Deddf Cydraddoldeb, Hawliau Dynol 1998, Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 a Siarter Ieithoedd Rhanbarthol neu Leiafrifol Ewrop

1.40 Ar hyn o bryd, mae'n ofynnol i Awdurdodau Lleol hyrwyddo cydraddoldeb ac atal gwahaniaethu ac aflonyddu ar sail hil, anabledd a rhyw. Mae'n ofynnol i ALLau gynnal asesiadau o effaith er mwyn sicrhau, i'r graddau y bo modd, bod unrhyw ganlyniadau negyddol yn cael eu dileu neu'n cael eu cadw i'r lleiaf posibl ac y manteisir ar gyfleoedd i hyrwyddo cydraddoldeb. Cyflwynwyd Mesur Cydraddoldeb yn Senedd y DU ym mis Ebrill 2009. Os bydd y mesur yn dod i rym bydd yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru roi dyletswyddau cydraddoldeb penodol i awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru. Y bwriad yw i'r gyfraith cydraddoldeb newydd gysoni a chryfhau cyfraith y DU sy'n ymwneud â gwahaniaethu yn erbyn pobl. Bydd angen i Awdurdodau Lleol roi ystyriaeth i unrhyw newidiadau i'r gyfraith gydraddoldeb a ddaw yn sgil hynny. Wrth ddarparu lleoedd ysgolion, dylai Awdurdodau Lleol anelu at hyrwyddo cyfle cyfartal i bob disgybl.

1.41 Dylai Awdurdodau Lleol hefyd geisio rhoi egwyddorion Deddf Hawliau Dynol 1998 ar waith gan roi sylw priodol i Erthygl 14 sy'n gwahardd gwahaniaethu wrth arfer Hawliau'r Confensiwn ac Erthygl 2 o Brotocol 1 ar yr hawl i gael addysg. Dylent hefyd roi sylw priodol i egwyddorion Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 ac

i'r paragraffau a gadarnhawyd yn ymwneud ag addysg yn Siarter leithoedd Rhanbarthol neu Leiafrifol Ewrop.

Gwahaniaethu ar sail Rhyw

1.42 Yng ngoleuni eu rhwymedigaethau o dan Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Rhyw 1975 (yn enwedig adrannau 22 a 23) mae angen i Awdurdodau Lleol sicrhau nad yw unrhyw ddarpariaeth un rhyw yn cael ei darparu mewn modd sy'n gwahaniaethu'n anghyfreithlon. Wrth gymhwyso gofynion y Ddeddf, dylai awdurdodau lleol roi sylw i gynllunio lleol synhwyrol ac i'r fframwaith derbyniadau o dan Ddeddf 1998, yn hytrach na mynnu cydraddoldeb yn nifer y lleoedd i fechgyn a merched.

Deddfwriaeth Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd

1.43 Dylai Awdurdodau Lleol roi sylw priodol i ddarpariaethau Deddf Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd 2001 sy'n atal gwahaniaethu yn erbyn pobl anabl o ran mynediad i addysg. Mae'r dyletswyddau'n darparu amddiffyniad i ddisgyblion anabl trwy atal gwahaniaethu yn eu herbyn yn yr ysgol ar sail eu hanabledd. Rhaid i Awdurdodau Lleol hefyd roi ystyriaeth i Gylchlythyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru Rhif 15/2004: Cynllunio ar gyfer Cynyddu Mynediad i Ysgolion i Ddisgyblion ag Anableddau, sy'n cynnwys canllawiau ar y dyletswyddau a osodir ar Awdurdodau Lleol yn sgil Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 2002. Dylai Awdurdodau Lleol ystyried hefyd y ddyletswydd gyffredinol (sydd wedi'i nodi yn Neddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 2005) ar awdurdodau cyhoeddus ac ysgolion i fynd ati i hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng unigolion ac anableddau a phobl eraill ac, yn benodol, y pwyslais a roddir ar hawliau gwrth-wahaniaethu pobl anabl o ran cael eu trin yn llai ffafriol neu fethu â gwneud addasiad rhesymol.

Adran 2: Ystyriaeth i'r Cynigion gan Weinidogion Cymru

2.1 Daw cynigion statudol i ad-drefnu'r ddarpariaeth ysgolion ger bron Gweinidogion Cymru i'w penderfynu yn bennaf pan fo'r cynigion hynny'n destun gwrthwynebiadau neu lle mae'r Gweinidogion yn galw'r cynigion i mewn. Mae Gweinidogion Cymru yn rhoi ystyriaeth i'r arweiniad yn y Cylchlythyr hwn wrth wneud penderfyniad. Bernir pob achos yn ôl ei deilyngdod, gan ystyried y ffactorau a nodir isod.

Ffactorau i'w hystyried wrth wneud penderfyniad ar bob cynnig i ad-drefnu ysgol

2.2 Mae'r ffactorau hyn fel a ganlyn:

Safonau'r ddarpariaeth

Mae'r ystyriaethau hyn yn hynod o bwysig:

- a yw'r cynigion yn debygol o gynnal neu wella safon yr addysg a ddarperir yn yr ardal (gan gynnwys, lle y bo'n briodol, safonau ar gyfer disgyblion ag AAA)
- safon yr addysg a ddarperir ar hyn o bryd a gallu'r ysgol i gynnal safonau boddhaol
- a fydd y cynigion yn sicrhau cwricwlwm eang a chytbwys, gan gynnwys holl elfennau angenrheidiol y cwricwlwm ar gyfer yr holl grwpiau oedran yr effeithir arnynt, a disgyblion ag anghenion amrywiol, gan gynnwys y gofynion i ddarparu dewis ehangach a mwy o hyblygrwydd i ddysgwyr 14 oed a hŷn, gan gymryd i ystyriaeth y trefniadau ar gyfer cydweithredu ag ysgolion eraill, Sefydliadau Addysg Bellach a darparwyr hyfforddiant yn yr ardal
- effaith y cynigion ar ysgolion a sefydliadau addysgol eraill.

Wrth asesu effaith y cynigion ar safonau addysg, bydd Gweinidogion Cymru fel rheol yn ceisio barn Estyn, yn cyfeirio at yr adroddiadau Estyn diweddaraf ac yn ystyried unrhyw wybodaeth arall sydd ar gael am berfformiad yr ysgol.

Ni fyddai Gweinidogion Cymru fel rheol yn barod i gymeradwyo cau ysgol boblogaidd ac effeithiol oni bai y cyflwynir tystiolaeth y byddai'r dewis amgen a gynigir yn darparu addysg sy'n cynnig o leiaf yr un ansawdd ac amrywiaeth, ar gost is na phe bai'r ysgol wedi aros yn agored.

Yr angen am leoedd a'r effaith ar hygyrchedd ysgolion

- a oes darpariaeth ar gyfer lleoedd dros ben yn yr ardal ac effaith y cynnig ar y lleoedd hynny
- lle cynigir cau ysgol, y bydd cynhwysedd digonol mewn ysgolion eraill sydd o leiaf o'r un ansawdd o ran yr adeilad ac o'r un math ieithyddol, gan roi sylw priodol i gategoriâu iaith ysgolion a amlinellir yn nogfen Llywodraeth Cynulliad Cymru Rhif: 023/2007 "Diffinio Ysgolion yn ôl y Ddarpariaeth Cyfrwng Cymraeg"
- a oes tystiolaeth am angen ar hyn o bryd neu yn y dyfodol am leoedd ychwanegol yn yr ardal neu alw am fath penodol o ddarpariaeth, er enghraifft, darpariaeth cyfrwng Cymraeg neu ysgolion â nodwedd grefyddol ddynodedig
- natur y daith i'r ddarpariaeth amgen ac amserau teithio i ddisgyblion, yn enwedig a fydd taith unffordd dros 45 munud i blant cynradd neu dros awr i blant uwchradd; ac a fydd llwybrau cerdded a beicio diogel, cludiant cyhoeddus ar gael, a, lle bo'n berthnasol, y trefniadau cludiant rhwng y cartref a'r ysgol a nodir gan y rhai sy'n cyflwyno'r cynigion
- a fydd y cynnig yn gwella mynediad i ddisgyblion anabl yn unol ag anghenion Deddf Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd 2001.

Cyllid

- y goblygiadau ariannol o ran costau rheolaidd a chostau cyfalaf, a swm unrhyw arbedion net a ragwelir dros gyfnod o dair blynedd o leiaf
- a yw'r cynigion yn golygu defnyddio adnoddau yn fwy effeithlon, gan ystyried costau trafnidiaeth, cynnal adeiladau a chostau adnewyddu hirdymor
- cadarnhad ysgrifenedig gan y corff neu'r cyrff dan sylw y bydd unrhyw gyllid cyfalaf y mae ei angen ar gyfer y cynnig i'w roi ar waith ar gael ar y lefel angenrheidiol ac ar yr amser cywir
- a yw'r cyllid cylchol angenrheidiol ar gael, gan gynnwys ystyried a fyddai'r ysgolion yn wynebu diffyg ariannol heb y cynigion

- a fyddai unrhyw enillion (derbyniadau cyfalaf) o werthu safleoedd diangen ar gael i fodloni costau'r cynnig neu'n cyfrannu at gostau cynigion yn y dyfodol a fyddai'n hybu rheolaeth effeithiol ar leoedd ysgolion
- a fyddai unrhyw arbedion mewn costau rheolaidd yn cael eu cadw yng nghyllideb ysgolion lleol yr Awdurdod Lleol; ac
- yn achos cau ysgolion, pa fuddsoddiad cyfalaf y byddai ei angen pe bai'r ysgol i aros yn agored er mwyn ei datblygu at safon addas i gyflwyno'r cwricwlwm.

Safbwyntiau grwpiau sydd â diddordeb

- safbwyntiau staff, plant a phobl ifanc, rhieni a thrigolion lleol eraill, gan gynnwys safbwyntiau'n ymwneud â dewis y rhieni a'r materion a godir gan y rheini sy'n gwrthwynebu'r cynigion
- pryderon unrhyw Awdurdod Lleol y mae'r cynigion yn effeithio arno
- pryderon unrhyw esgobaethau y mae'r cynigion yn effeithio arnynt
- os yw'r cynigion yn effeithio ar y ddarpariaeth addysg ôl-16, safbwyntiau: cyflogwyr lleol, y Gwasanaeth Gyrfaoedd; y Rhwydwaith Ardal Leol 14-19; Sefydliadau Addysg Bellach ac Uwch perthnasol a darparwyr dysgu seiliedig ar waith
- safbwyntiau ysgolion, cylchoedd chwarae neu ddarparwyr eraill yn yr ardal.

Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif

- A yw'r cynnig yn cyfrannu at ddarparu ysgolion cynaliadwy ar gyfer yr 21ain ganrif ac at reoli'r ystad ysgolion yn well yn strategol.

Ystyried dewisiadau eraill¹¹

- a ystyriwyd sefydlu ysgolion aml-safle fel ffordd o gadw adeiladau, a'r rhesymau dros beidio â gweithredu'r opsiwn hwn
- a yw'r cynigydd wedi edrych ar bosibiliadau amgen heblaw cau'r ysgol, yn enwedig clystyru neu gydweithio ag ysgolion eraill (gan ystyried posibiliadau defnyddio cysylltiadau TGCh rhwng safleoedd ysgolion) a'r rhesymau dros beidio ag ystyried y rhain fel dewis amgen i gau ysgol

¹¹ Mae'r ystyriaethau hyn yn fwy perthnasol ar gyfer ysgolion mewn ardaloedd mwy gwledig

- a ystyriwyd y posibiliadau o wneud defnydd llawnach o adeiladau presennol fel adnodd cymunedol neu addysgol.

Materion eraill

- effaith gyffredinol cau ysgol ar y gymuned leol (yr asesiad effaith ar y gymuned), yn enwedig mewn ardaloedd sy'n cael cyllid fel rhan o raglen adfywio
- effaith cau ysgol ar safonau'r iaith Gymraeg mewn ysgolion ac ar gyfleoedd i ddysgwyr gamu ymlaen (asesiad effaith ar yr iaith Gymraeg)
- yn achos ysgol â nodwedd grefyddol ddynodedig, effaith cau'r ysgol ar gael gafael ar ddarpariaeth o'r fath, ynghyd â'r angen am ddarpariaeth effeithlon
- a fu'r ymgynghori statudol yn ddigonol, gan ganiatáu amser digonol a darparu gwybodaeth ddigonol er mwyn i grwpiau â diddordeb allu ymateb ar sail yr wybodaeth honno
- a yw plant o oedran ysgol a phobl ifanc, gan gynnwys lle y bo'n briodol, y rhai ag AAA, wedi cael cyfle i gymryd rhan yn y broses ymgynghori
- a ddilynwyd y gweithdrefnau cyhoeddi priodol
- unrhyw effaith y mae'r cynigion yn ei chael ar faint statudol dosbarthiadau a'r polisi ar faint dosbarthiadau iau; ac
- unrhyw faterion cydraddoldeb.

Ffactorau ychwanegol i'w hystyried ar gyfer cynigion i ychwanegu neu ddileu dosbarthiadau meithrin

2.3 Mae'r ffactorau hyn fel a ganlyn:

- mae safbwyntiau'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc a Phartneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant yn ystyriaeth allweddol wrth benderfynu ynghylch cynigion o'r fath
- a fydd y cynnig yn cyfrannu at gyflwyno'r Cyfnod Sylfaen yn effeithiol
- safon yr addysg feithrin a'r cyfleusterau a gynigir, yn yr ystafell ddosbarth ac yn yr awyr agored, a hyfywedd unrhyw ysgol sy'n dymuno ychwanegu lleoedd meithrin

- lefel y galw am fathau penodol o addysg feithrin ee cyfrwng Cymraeg neu nodwedd grefyddol ddynodedig
- cyfraniad at nodau laith Pawb a strategaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer y Gymraeg o safbwynt darpariaeth y blynyddoedd cynnar
- effaith y cynigion ar sefydliadau eraill, gan gynnwys darparwyr preifat a gwirfoddol
- a oes angen lleoedd ychwanegol mewn meithrinfeydd yn yr ardal, gan ystyried cyfran y plant tair a phedair blwydd oed sydd eisoes yn mynychu dosbarthiadau meithrin a dosbarthiadau derbyn a gynhelir
- i ba raddau y byddai cynigion yn integreiddio addysg blynyddoedd cynnar â gwasanaethau gofal plant, neu i ba raddau y maent yn gyson â'r dull integredig.

Wrth benderfynu ynghylch cymeradwyo unrhyw gynigion i gau ysgol neu ddosbarth meithrin, bydd Gweinidogion Cymru am gael sicrwydd y gall y ddarpariaeth arfaethedig a gynigir gynnal neu wella safon yr addysg; ac os yw'n berthnasol, datblygu a chynyddu hygyrchedd a chynaliadwyedd addysg cyfrwng Cymraeg ar gyfer disgyblion mewn blynyddoedd i ddod.

Ffactorau ychwanegol a ystyrir ar gyfer cynigion i ad-drefnu ysgolion uwchradd neu i ychwanegu neu ddileu chweched dosbarth

2.4 Mae'r ffactorau hyn fel a ganlyn:

- a fydd y ddarpariaeth a gynigir yn cyfrannu at yr amrediad ehangach o gysiau a chymwysterau perthnasol a llwybrau dysgu galwedigaethol o ansawdd uchel, seiliedig ar anghenion cyflogwyr, wedi'u hanelu at ddisgyblion o bob gallu, a hefyd yn cynnal cysiau TGAU, Lefel Uwch/UG a chysiau sefydledig eraill sy'n ofynnol o dan Fesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 ar gyfer dysgwyr 14-19 oed
- i ba raddau y mae'r cynnig yn cyfrannu at yr agenda 14-19 a thrawsnewid gan ystyried barn rhwydweithiau 14-19 lleol a phartneriaethau dysgu

- a yw unrhyw ddarpariaeth ôl-16 newydd arfaethedig o faint ac ansawdd digonol i gynnig amrediad o gyrsiau sy'n addas ar gyfer anghenion a gallu'r disgyblion sy'n debygol o fynychu, heb effaith andwyol ar y ddarpariaeth 11-16 mewn ysgolion
- sut byddai'r cynigion yn effeithio ar hyfywedd sefydliadau sydd eisoes yn darparu addysg ôl-16 safonol, gan gynnwys chweched dosbarth mewn ysgolion, Sefydliadau Addysg Bellach a sefydliadau hyfforddi preifat
- a yw'r cynigion yn debygol o gynyddu'r nifer sydd wedi pasio'r oed lle mae'n rhaid iddynt fynd i'r ysgol sy'n parhau i ddysgu, gan ystyried materion a chostau trafnidiaeth
- sut y gallai'r cynigion effeithio ar gynnal neu wella'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y rhwydwaith 14-19 leol a'r ardal ehangach
- safbwyntiau pobl ifanc, rhieni, ysgolion a cholegau yn yr ardal
- lefelau cydweithio ac arloesi cyfredol ac i ba raddau y bydd y cynigion yn rhoi manteision ychwanegol i ddysgwyr o gymharu â chadw'r sefyllfa bresennol a dewisiadau posibl eraill ar gyfer ad-drefnu ôl-16.

Ysgolion sy'n Peri Pryder

2.5 Wrth ystyried unrhyw gynigion yn ymwneud ag ysgolion sy'n peri pryder, bydd Gweinidogion Cymru, mewn achosion o'r fath, yn rhoi ystyriaeth i faint o amser y bu'r ysgol dan fesurau arbennig (neu y bu arni angen gwelliant sylweddol), yr effaith ar ei gallu i symud ymlaen gyda'i chynllun gweithredu, y cynnydd a wnaeth, ar argoel ar gyfer gwella amserol, ac yn achos cynigion i gau ysgol, a fydd lleoedd digonol ar gael mewn ysgolion cyfagos.

Ffactorau ychwanegol i'w hystyried wrth benderfynu ar gynigion ar gyfer darpariaeth ychwanegol o wahanol fathau

2.6 Yn achos cynnig sy'n dod ger bron Gweinidogion Cymru i benderfynu arno ar gyfer ysgol newydd neu ysgol fwy, caiff yr angen ymddangosiadol i fodloni'r galw ei gloriannu yn erbyn cyflenwad cyffredinol y lleoedd yn yr ardal, cost y cynigion, a safonau neu safonau arfaethedig unrhyw ysgol berthnasol.

Rhaid i hyrwyddwyr ddangos bod y cynnig am ysgol newydd yn gallu ateb y gofynion sy'n gymwys i bob ysgol a gynhelir, gan gynnwys:

- ei bod yn gallu cyflwyno'r Cwricwlwm Cenedlaethol, darparu addysg o safon dda, ac, os yw'r ysgol a gynigir yn gydaddysgol, ei bod yn rhoi cyfle cyfartal i fechgyn a merched
- ei bod, ar gyfer yr ystodau oedran perthnasol, yn gallu gwneud cyfraniad effeithiol ac effeithlon at gyflwyno'r Cyfnod Sylfaen neu'r trefniadau cwricwlwm lleol ar gyfer Llwybrau Dysgu 14-19
- pan fo'r ysgol a gynhelir dan sylw eisoes yn ysgol annibynnol, gellid ychwanegu adroddiad ar y ffactorau isod at ddatganiad y cynnig:
 - bod yr ysgol wedi penodi, neu y bydd yr ysgol yn penodi staff â'r cymwysterau addas
 - bod yr adeiladau'n addas ar gyfer ysgol a gynhelir
 - os ysgol un rhyw a gynigir, ni fyddai'r cynigion yn golygu bod yr Awdurdod Lleol yn torri Deddf Gwahaniaethu ar Sail Rhyw 1975
- os ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir a gynigir, bod yr Awdurdod Lleol yn cadarnhau y bydd yn ysgwyddo'i chyfrifoldeb; ac
 - os bydd angen, bydd grant ar gael dan raglen gyfalaf Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir
 - bod yr hyrwyddwyr wedi darparu datganiad yn nodi y bydd y corff llywodraethu yn gallu ysgwyddo'i gyfrifoldebau ariannol ar gyfer adnewyddu a gwaith cyfalaf

- bod y trefniadau arfaethedig ar gyfer daliadaeth y tir yn rhoi sicrwydd digonol y bydd yr ysgol yn cadw'r tir. Lle na fydd trefniadau daliadaeth tir wedi'u cadarnhau gall Gweinidogion Cymru nodi eu bod yn gogwyddo o blaid cymeradwyo'r cynigion. Gall penderfyniadau o'r fath fod yn briodol pan na fydd hyrwyddwyr am ysgwyddo costau cyfreithiol i ddatrys y mater daliadaeth tan iddynt gael gwybod y bydd y cynigion yn debygol iawn o gael eu cymeradwyo
- ar gyfer ysgol cyfrwng Cymraeg newydd, bod tystiolaeth o'r galw asesedig yn dangos y gellir cyfiawnhau'r ddarpariaeth ychwanegol neu ddiwygiedig, ac y bydd yn gynaliadwy.

Wrth ystyried cynigion ar gyfer ysgolion newydd neu fwy, bydd Gweinidogion Cymru yn rhoi sylw arbennig i farn rhieni ac i effaith unrhyw gynnydd mewn lleoedd ar ysgolion eraill yn yr ardal.

Ffactorau ychwanegol wrth ystyried cynigion i newid iaith y ddarpariaeth

2.7 Mae'r ffactorau hyn fel a ganlyn:

- Bydd Gweinidogion Cymru'n chwilio am dystiolaeth ynghylch i ba raddau y mae darpariaeth Saesneg neu Gymraeg gyfredol yr awdurdod addysg yn uwch neu'n is na'r galw neu'r galw a ragwelir gan rieni ar gyfer darpariaeth o'r fath, a chyfraniad y cynnig at unioni'r sefyllfa.
- Effaith y cynnig ar dargedau cynllun Addysg Gymraeg yr Awdurdod Lleol a gymeradwywyd.

Ystyried cynigion i ad-drefnu'r ddarpariaeth AAA

2.8 Bydd Gweinidogion Cymru yn pwysu a mesur yr egwyddorion a nodir mewn rhannau eraill o'r Cylchlythyr hwn wrth ystyried y cynigion ar gyfer ad-drefnu ysgolion arbennig a darpariaeth AAA mewn ysgolion prif ffrwd, hy codi safonau, dewis y rhieni, yr effaith ar siwrneiau rhwng y cartref a'r ysgol, ar y Gymraeg ac ar amrywiaeth y ddarpariaeth ôl-16. Bydd Gweinidogion Cymru hefyd yn ystyried:

- elfennau Nod Craidd 2 Llywodraeth Cynulliad Cymru yn y Nodau Craidd ar gyfer Plant a Phobl Ifanc, sy'n berthnasol i AAA, yn enwedig cynlluniau'r Awdurdod Lleol i hyrwyddo cynhwysiant (hy darparu ar gyfer cyfran uwch o ddisgyblion ag AAA mewn lleoliad prif ffrwd) lle bynnag y bo'n briodol ar gyfer diwallu anghenion unigol plentyn neu berson ifanc
- amcan Llywodraeth Cynulliad Cymru i hyrwyddo cydlynu darpariaeth a gwasanaethau AAA rhanbarthol yn well, fel y'i nodir yn Neddf Addysg 2002 ac yn Y Wlad sy'n Dysgu
- effaith y newidiadau ar wasanaethau eraill a ddarperir gan yr ALI ar gyfer plant ag AAA.

2.9 Lle mae datblygiad darpariaeth y brif ffrwd wedi'i gysylltu ag ad-drefnu'r ddarpariaeth addysg arbennig, bydd Gweinidogion Cymru yn ystyried rôl gwasanaethau arbenigol yr Awdurdod Lleol wrth ddarparu cymorth i ysgolion prif ffrwd. Yn ogystal, gall fod angen ystyried anghenion nyrsio a/neu feddygol, a defnyddio therapyddion a gweithwyr proffesiynol eraill.

2.10 Er nad yw'n ofyniad penodol i gynigion alluogi ysgolion prif ffrwd i ddangos dull mwy cynhwysol o ddarparu ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol arbennig, disgwylir y bydd mwy o gydweithio rhwng ysgolion arbennig ac ysgolion prif ffrwd wrth i Awdurdodau Lleol ddechrau rhoi polisiau cynhwysiant cymdeithasol ar waith.

2.11 Bydd Gweinidogion Cymru:

- lle bo'n briodol, yn ceisio cyngor arbenigol ar agweddau addysgol ac agweddau eraill ar gynnig penodol
- yn chwilio am dystiolaeth bod unrhyw gynigion i ad-drefnu yn rhan o fframwaith strategol clir a luniwyd gan yr Awdurdod lleol ar gyfer bodloni'r ystod lawn o AAA ac ar gyfer hyrwyddo cynhwysiant.

2.12 Yn ogystal â'r ystyriaethau arferol o ran **safonau'r ddarpariaeth**, bydd Gweinidogion Cymru yn ystyried:

- a fydd y cynigion yn gwella safonau'r adeiladau i ddisgyblion ag AAA

- sut y bydd y cynigion yn mynd i'r afael ag unrhyw faterion iechyd, diogelwch a lles
- sut y bydd y cynigion yn sicrhau lefelau uwch o gynhwysiant
- effaith y cynnig ar ddarpariaeth AAA arall yn ardal agos ac ehangach yr Awdurdod Lleol gan gynnwys y tu allan i'r sir lle bo'n addas.

2.13 Wrth asesu'r angen am ddarpariaeth bydd Gweinidogion Cymru yn ystyried y ffactorau ychwanegol hyn:

- a oes angen am fath penodol o ddarpariaeth AAA yn yr ardal; ac
- a oes gormod o ddarpariaeth AAA yn yr ardal.

2.14 Lle bo'n briodol ac yn ogystal â'r ystod arferol o grwpiau sydd â diddordeb, bydd Gweinidogion Cymru hefyd yn ystyried safbwyntiau:

- y Bwrdd Iechyd Lleol a/neu'r Ymddiriedolaeth GIG leol.

Penderfyniadau gan Weinidogion Cymru

2.15 Gall Gweinidogion Cymru:

- gymeradwyo'r cynigion
- cymeradwyo'r cynigion â newidiadau
- gwrthod y cynigion
- rhoi cymeradwyaeth amodol, a ddaw'n benderfyniad terfynol pan fydd y camau i fodloni'r amodau wedi'u cymryd, a'r gweinidog yn fodlon arnynt.

Fel arfer, bydd Gweinidogion Cymru'n ceisio gwneud penderfyniad o fewn chwe neu saith mis o ddyddiad cyhoeddi'r cynnig.

Addasu cynigion cyn eu cymeradwyo

2.16 Cyn newid cynnig rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r sawl a gyhoeddodd y cynigion a, mewn rhai achosion, yr Awdurdod Lleol a'r corff llywodraethu. Ni all Gweinidogion Cymru addasu cynnig mewn ffordd a fyddai i bob pwrpas yn disodli'r cynnig cyhoeddedig â chynnig newydd.

2.17 Os dymuna'r rhai a gyhoeddodd y cynigion newid y cynigion mewn modd sydd y tu hwnt i ddisgresiwn Gweinidogion Cymru i addasu'r cynnig mae angen iddynt dynnu'r cynnig yn ei ôl a chyhoeddi cynigion newydd. O dan amgylchiadau o'r fath rhaid cynnal ymgynghoriad newydd â grwpiau â diddordeb a rhoi hysbysiad yn y wasg leol.

Llythyrau Penderfyniad

2.18 Anfonir llythyr o benderfyniad, yn rhoi rhesymau Gweinidogion Cymru dros y penderfyniad, at y person neu'r corff a gyhoeddodd y cynigion ac anfonir copi i'r Awdurdod Lleol neu'r corff llywodraethu fel y bo'n briodol. Anfonir copi hefyd at bob gwrthwynebydd statudol ac eithrio gwrthwynebwyr sydd wedi arwyddo deiseb. Bryd hynny anfonir copi at y person a gyflwynodd y ddeiseb yn unig. Os yw ysgol i gau, bydd Gweinidogion Cymru fel rheol yn cyflwyno penderfyniad o leiaf un tymor cyn i'r cau fod yn weithredol.

2.19 Bydd y llythyr penderfyniad a'r datganiad gwybodaeth a gyflwynwyd i Weinidogion Cymru fel sail i'r penderfyniad yn cael ei gyhoeddi yn unol â Chod Ymarfer Llywodraeth Cynulliad Cymru ar y wefan www.cymru.gov.uk a hynny, fel rheol, ddeuddydd cyn ei gyflwyno i grwpiau â diddordeb.

Dogfennau cysylltiedig

- Canllawiau ar Gynlluniau i Reoli Asedau yng Nghymru
- Canllawiau i gyd-fynd â Rheoliadau Cynigion ar Drefniadaeth Ysgolion gan Gyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant 2004 (Cylchlythyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru 48/2004)
- Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru
- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn
- Cyhoeddiadau Estyn
 - Adroddiadau arolygu ar ysgolion
 - Ysgolion Cynradd Bach yng Nghymru: 2006
 - Effaith Maint Dosbarthiadau mewn Ysgolion Cynradd: 2004
 - Gwerthuso perfformiad ysgolion cyn ac ar ôl iddynt symud i adeiladau newydd neu adeiladau sydd wedi'u hadnewyddu'n sylweddol: 2007
- Cylchlythyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru Rhif 15/2004: Cynllunio ar gyfer Cynyddu Mynediad i Ysgolion i Ddisgyblion ag Anableddau
- Cymru'n Un: Rhaglen Flaengar ar gyfer Llywodraethu Cymru
- Cynllunio ar y Cyd i Wella Canlyniadau: Canllawiau Cynllunio a Rheoliadau i Awdurdodau Lleol a'u Partneriaid ar Gynlluniau Plant a Phobl Ifanc: Cylchlythyr Llywodraeth Cynulliad Cymru Rhif 31/2007
- Deddf Addysg 1996
- Deddf Addysg 2002
- Deddf Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd 2001
- Deddf Dysgu a Sgiliau 2000
- Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 2002
- Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 2005
- Deddf Gwahaniaethu ar sail Rhyw 1975
- Deddf Hawliau Dynol 199
- Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998
- Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998: Trefniadaeth Lleoedd Ysgol - Cylchlythyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru 9/99

- Deddf yr Iaith Gymraeg 1993
- Diffinio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Gymraeg - Dogfen wybodaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru Rhif: 023/2007
- Dyfodol Teg i'n Plant - Strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer Mynd i'r Afael â Thlodi Plant
- Fframwaith Effeithlonrwydd Ysgolion: 2008
- Iaith Pawb: Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cymru Ddwieithog
- Llwybrau Dysgu 14-19, Canllawiau: Cylchlythyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru Rhif 37/2004
- Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009
- Rheoliadau Addysg (Maint Dosbarthiadau Babanod) (Cymru) 1998
- Rheoliadau Addysg (Maint Dosbarthiadau Babanod) (Cymru) (Diwygio) 2009
- Rheoliadau Addysg (Ysgolion Arbennig a Gynhelir) (Cymru) 1999
- Rheoliadau Addysg (Cynigion Trefniadaeth Ysgolion) (Cymru) (Diwygio) 2004
- Rheoliadau Addysg (Cynigion Trefniadaeth Ysgolion) (Cymru) (Diwygio) 1999
- Rheoliadau Addysg (Mangreoedd Ysgol) 1999
- Rheoliadau Cynigion ar Drefniadaeth Ysgolion gan Gyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant 2004
- Rheoliadau Adeiladau Ysgolion 1999: Cylchlythyr Y Swyddfa Gymreig 15/99
- Rheoliadau Newid Categori Ysgolion a Gynhelir (Cymru) (Diwygio) 2005
- Rheoliadau Newid Categori Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2001
- Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru - Strategaeth a Chynllun Gweithredu ar gyfer Sgiliau a Chyflogaeth
- Siarter Ieithoedd Rhanbarthol neu Leiafrifol Ewrop
- Trawsnewid Darpariaeth Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru: 2008
- Y Wlad sy'n Dysgu
- Y Wlad sy'n Dysgu: Gweledigaeth ar Waith
- Y Cyfnod Sylfaen - Fframwaith ar gyfer Dysgu Plant 3 i 7 oed yng Nghymru

Cynigion trefniadaeth
ysgolion
Medi 2009
Cylchlythyr Canllawiau
Rhif: 021/2009

Nodiadau ar Aseidiadau o Effaith

Nid yw Llywodraeth Cynulliad Cymru yn meddwl y dylai Awdurdodau Lleol ysgwyddo gormod o faich yn sgil aseidiadau o effaith na bod angen iddynt gomisiynu ymgynghorwyr allanol i wneud y gwaith hwn. Mae dyletswydd arnynt eisoes i gynnal aseidiadau o effaith o ran cydraddoldeb a allai fod yn sail i'r effeithiau a nodir yn y canllawiau hyn.

Effaith ar y Gymuned

Yn ddelfrydol, dylid cynnwys aseidiadau o effaith mewn dogfennau ymgynghorol a roddir i rieni. Er nad yw'r nodiadau hyn yn nodi'r hyn i'w gynnwys mewn asesiad o effaith ar y gymuned, gallai cynigwyr ystyried cynnwys y canlynol:

- Gwybodaeth am gyfran y disgyblion yn nalgylch yr ysgol sy'n mynd i'r ysgol.
- Gwybodaeth am gyfran y disgyblion sy'n byw y tu allan i ddalgylch yr ysgol sy'n mynd i'r ysgol.
- Gwybodaeth am unrhyw gyfleusterau eraill y mae'r ysgol yn eu cynnig e.e. clwb ieuenctid/grŵp chwarae.
- Gwybodaeth am unrhyw gyfleusterau neu wasanaethau eraill y mae'r ysgol yn eu cynnig, e.e. clybiau ar-ôl-ysgol, llyfrgell gymunedol.
- Os yw'r ysgol yn cynnig llety, cyfleusterau neu wasanaethau, lle bydd y pethau hyn yn cael eu cynnig os bydd yr ysgol yn cau.
- A oes/fyddai modd gwella cyfleusterau eraill sydd ar gael yn y gymuned leol neu ehangach os bydd yr ysgol yn cau (e.e. gwella neuaddau pentref, manau chwarae, darparu cynlluniau chwarae yn ystod y gwyliau).
- Gwybodaeth am y cyfleusterau a'r gwasanaethau sydd ar gael mewn unrhyw ysgol amgen.
- Sut mae cefnogi'r rhieni a'r disgyblion wrth iddynt ymgysylltu a'r ysgol amgen neu ddefnyddio'i chyfleusterau (e.e. sut mae helpu disgyblion (yn enwedig y rhai sydd o dan anfantais) i gymryd rhan mewn gweithgareddau ar-ôl-ysgol).

Effaith ar y Gymraeg

Nid yw'r rhestr hon yn hollgynhwysfawr ond gall yr asesiad o'r effaith ar y Gymraeg gynnwys:

- Gwybodaeth am gategori iaith yr ysgol.
- Gwybodaeth am gategori iaith unrhyw ysgol amgen.
- Gwybodaeth am safonau'r Gymraeg yn yr ysgol ac mewn unrhyw ysgol amgen.
- Gwybodaeth am weithgareddau ar-ôl-ysgol e.e. yr Urdd sy'n cynnig cyfleoedd ychwanegol o ran defnyddio'r Gymraeg yn yr ysgol neu mewn unrhyw ysgol amgen.
- Gwybodaeth ynghylch a oes gan yr ysgol gyfleusterau sy'n cynnig y cyfle i aelodau'r gymuned ddysgu'r Gymraeg, neu lle gall cyfleusterau amgen o'r fath gael eu cynnig.
- A allai fod yn briodol cynnig cyfleusterau ar-ôl-ysgol mewn unrhyw ysgol arall er mwyn sicrhau safonau'r Gymraeg ymhellach.
- Sut mae cefnogi rhieni a disgyblion wrth iddynt ymgysylltu â'r ysgol amgen a sut mae cefnogi unrhyw welliannau o ran iaith y mae'n eu cynnig (e.e. sut mae helpu disgyblion i gymryd rhan yng ngrwpiau'r Urdd).
- Gwybodaeth am sut mae'r cynnig yn ategu Cynllun Iaith yr awdurdod ac am unrhyw gamau i'w cymryd yn y dyfodol o ganlyniad i'r newid er mwyn parhau i gydymffurfio â'r cynllun neu fodloni'i dargedau.